



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

Gwneud penderfyniadau ynghylch
arwyddocâd o fewn proses sgrinio ac
ymchwilio'r EIA (Amaethyddiaeth)

Medi 2020

Rhaglith

Mae'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn ystyried effeithiau prosiectau amaethyddol ar gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion hanesyddol (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn ystod y broses asesu, mae angen dosbarthu ardaloedd o gynefinoedd lled-naturiol fel rhai 'arwyddocaol' neu 'ddim yn arwyddocaol', gyda'r diffiniad o arwyddocâd yn ymwneud â lefel 'pwysigrwydd cenedlaethol neu leol' y cynefin lled-naturiol.

Yn aml, ymdrechwyd i ddosbarthu 'gwerth' neu 'bwysigrwydd' elfennau neu systemau biolegol o fewn yr amgylchedd naturiol. Dyma beth mae'r Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod ei broses o wneud penderfyniadau. Mae elfennau yn yr amgylchedd naturiol sy'n cael eu cydnabod fel rhai mor brin neu dan fygythiad yng nghyd-destun ehangach Cymru fel bod y penderfyniad yn un cymharol syml, er enghraifft, ardal arbennig o fawr o fath o gynefin prin neu boblogaeth fawr o rywogaethau prin. Fodd bynnag, ni cheir senarios o'r math hwn yn aml, felly rhaid i'r Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) fesur a chymhwyso pob nodwedd o fewn maes diddordeb i ddod i benderfyniad.

Bydd y papur hwn yn categoreiddio'r gwahanol ffactorau y bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn eu hystyried wrth ddosbarthu arwyddocâd ardal o dir. Mae yna hefyd dmpled y bydd y tîm Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ei lenwi yn rhoi manylion y trafodaethau a gynhaliwyd a'r gwerthusiad o'r safle. Caiff y ddogfen hon ei defnyddio i gyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed.

1. Cynefinoedd Adran 7

Mae'r rhain yn gynefinoedd a restrir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rhai sydd "o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru" (gweler Ffigur 1) a chyfeirir atynt yn aml hefyd fel Cynefinoedd â Blaenoriaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys ystod lawn o gynefinoedd, o ucheldir i iseldir a daearol i ddŵr croyw a morol. Mewn lleoliad amaethyddol, cynefinoedd glaswelltir yw'r rhai mwyaf cyffredin, gyda chynefinoedd rhostir a gwlyptir ychydig yn llai cyffredin. Mae creu coetiroedd a datgoedwigo yn dod o dan Reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) ar wahân.

Mae adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru "gymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r... mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon". Felly, wrth ystyried arwyddocâd ardal led-naturiol, os yw ardal o gynefin Adran 7 wedi'i chofnodi, bydd yr ardal honno'n cael ei hystyried yn un arwyddocaol, cyn belled ag y cadarnheir bod y cynefin Adran 7 hwnnw yn dal i fod yn bresennol.

Dylid ystyried unrhyw effeithiau andwyol posibl prosiect arfaethedig ar ardal o gynefin Adran 7. Gallai hyn gynnwys effeithiau uniongyrchol megis amaethu neu ffrwythloni tir, neu effeithiau anuniongyrchol megis o ddŵr ffo amaethyddol. Effeithiau anuniongyrchol yw'r rhai anoddaf eu gwerthuso, ond maent yn fwy tebygol o ddigwydd pan fo tir cynefin yn union wrth ymyl a/neu i lawr llethr o dir a reolir yn ddwys.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru): Adran 7 (rhannau (1) i (3))

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.
- (2) Cyn cyhoeddi rhestr o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC") ynghylch yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd i'w cynnwys ar y rhestr.
- (3) Heb ragfarnu adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon, a
 - (b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Ffigur 1: Dyfyniad o Adran 7

2. Cynefinoedd lled-naturiol eraill

Mae Cymru'n cefnogi amrywiaeth o gynefinoedd lled-naturiol eraill nad ydynt wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae enghreifftiau'n cynnwys glaswelltir asid ucheldirol a glaswelltir niwtral wedi'i led-wella. Nid yw glaswelltir asid yn gynefin Adran 7 pan fo yn yr ucheldir agored, oherwydd ei fynychder yno a'r ffaith bod rhai ardaloedd wedi deillio o orbori rhostiroedd (mae enghreifftiau iseldirol yn llawer llai cyffredin ac yn llawer mwy tameidiog, fodd bynnag, ac felly wedi'u rhestru o dan Adran 7). Fel arfer, mae glaswelltir niwtral wedi'i led-wella yn cynnwys cyfran o laswellt amaethyddol megis rhygwellt, ond ar lai na'r terfyn gorchudd o 25% a ddefnyddir i ddiffinio cynefinoedd lled-naturiol o dan Reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) 2017.

Dylid ystyried amryw o ffactorau wrth asesu cynefinoedd lled-naturiol nad ydynt ar y rhestr Adran 7. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Maint y cynefin

Nid yw Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 yn nodi'r trothwyon ardal/maint lled-naturiol o fewn yr offeryn statudol. Felly, nid oes unrhyw ardaloedd a ystyrir yn rhy fach i effeithio ar y penderfyniad 'arwyddocâd' terfynol. Os ceir ardaloedd bach o gynefin lled-naturiol o fewn ardal prosiect, bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn ceisio eu heithrio o unrhyw gais sgrinio drwy gyfathrebu â'r tiffeddiannwr, gan ganiatáu i'r dull o reoli gweddill ardal y cais gael ei ddwysáu.

Fodd bynnag, y farn gyffredinol yw mai po fwyaf yw'r ardal o gynefin, boed yn un math neu'n fosaig o gynefinoedd, po fwyaf fydd gwerth neu, o dan y diffiniadau a ddefnyddir gan y Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru), 'arwyddocâd' y cynefin lled-naturiol hwnnw.

Mae lleiniau o gynefin lled-naturiol cyfagos yn iseldiroedd Cymru yn fach ar y cyfan, gyda 68% o'r lleiniau cynefin nad ydynt yn forol yn llai nag 1 hectar o ran maint a 94% o dan 10 hectar. (Stevens 2005). Felly, gellir ystyried hyd yn oed lleiniau cynefin o lai nag 1 hectar yn rhai arwyddocaol, yn enwedig os ydynt o fathau anghyffredin o gynefin.

b. Amrywiaeth rhywogaethau

Mae amrywiaeth, o'i fesur yn syml gan nifer y gwahanol rywogaethau sy'n bresennol mewn ardal o gynefin, yn ganllaw amherffaith i asesu arwyddocâd cynefin. Dylai asesiad o amrywiaeth rhywogaethau ystyried yn bennaf fynychder a chyflenwad y rhywogaethau hynny sy'n nodweddiadol o gynefinoedd heb eu gwella, ac felly'n ddangosol ohonynt.

Mae troi at ddosbarthiadau cynefin yn ddefnyddiol ar hyn o bryd, yn enwedig y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC). Mae lleoli ardaloedd o gynefin mewn cymunedau neu is-gymunedau NVC yn helpu i asesu arwyddocâd. Ystyrir bod rhai mathau NVC wedi'u haddasu'n amaethyddol, tra bod eraill yn cael eu hystyried yn brin a/neu'n gallu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â mathau o gynefin Adran 7 (ar gyfer glaswelltiroedd, gweler Jefferson et al., 2014). Mae cymhariaeth o'r testun a'r tablau blodeuegol yn y cyfrolau NVC (Rodwell (gol), 1991 et seq.) yn dangos pa rywogaethau sy'n fwy nodweddiadol o gynefinoedd heb eu gwella, er enghraifft, ar gyfer rhywogaethau glaswelltiroedd niwtral megis y feillionen wlanog a'r bengaled benddu.

I'r gwrthwyneb, mae cyflenwad rhywogaethau sy'n arwydd o welliant amaethyddol, megis rhygwellt a meillion gwyn, yn debygol o leihau arwyddocâd ardal o gynefin, er mai presenoldeb/cyflenwad y rhywogaethau sy'n dynodi cynefinoedd heb eu gwella yw'r ffactor pwysicaf o ran asesu amrywiaeth yn gyffredinol.

Ar gyfer asesiad o rywogaethau anghyffredin, gweler Rhywogaethau a'r Cyd-destun Lleol.

3. Mosaigau cynefin

Gall cynefin fod yn 'glystyrau' unigol neu gall fod wedi'i gymysgu â chynefinoedd eraill, weithiau ar ffurf mosaigau cynefin. Dylai gwerthuso arwyddocâd mosaigau cynefin ystyried rhannau cydrannol y mosaig, a allai gynnwys: cymysgedd o gynefinoedd Adran 7; cymysgedd o gynefinoedd Adran 7 a rhai nad ydynt yn rhai Adran 7; neu gymysgedd o dir cynefin a di-gynefin. Mae cymysgeddau o gynefinoedd bioamrywiol yn debygol o fod o werth uwch na'u cydrannau, a gallant fod yn bwysig i rywogaethau sy'n dibynnu ar gyfosodiadau rhwng cynefinoedd.

Dylai asesiad o arwyddocâd mosaigau gynnwys asesiad o gyfansoddiad ac amrywiaeth y gwahanol ardaloedd cynefin, ac amcangyfrif o gyfrannau'r gwahanol gydrannau cynefin/di-gynefin o fewn yr ardal fosaig.

Mosaigau o gynefinoedd Adran 7 yw'r rhai mwyaf syml i'w gwerthuso, ond efallai y gellid cronni cymysgedd o gynefinoedd ag amrywiaeth lefel isel neu ganolig i greu amrywiaeth o rywogaethau mosaig a fyddai, ynddo'i hun, yn ddigon mawr i roi'r dosbarthiad 'arwyddocaol' iddi.

Mae cymysgeddau o gynefin lled-naturiol a chynefin wedi'i addasu yn arbennig o broblemus. Yn ddelfrydol, byddai parsel tir sy'n cynnwys cyfran o gynefin Adran 7 yn cael ei ystyried yn arwyddocaol, ond os yw cyfran y cynefin lled-naturiol yn y mosaig yn arbennig o fach ac wedi'i wasgaru'n eang iawn, efallai na fydd hi'n ymarferol cadw'r cynefin hwnnw, yn enwedig os yw'r ardaloedd cynefin wedi'u hamgylchynu gan laswelltir 'wedi'i wella'.

4. Rhywogaethau

Mae amrywiaeth o rywogaethau ("*organeddau byw... o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru*") wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Dylid ystyried effeithiau prosiectau amaethyddol ar y Rhywogaethau â Blaenoriaeth hyn, a'r nod yw cynnal poblogaethau o leiaf.

Dylid ystyried hefyd effaith bosibl prosiectau gerllaw poblogaethau o rywogaethau Adran 7, gan y gallai prosiectau effeithio ar gydnerthedd poblogaethau (gweler isod).

Mae Cymru'n cefnogi rhywogaethau eraill o ddiddordeb cadwraeth nad ydynt wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan gynnwys rhywogaethau sy'n brin naill ai'n lleol, yn genedlaethol (Cymru) neu o fewn y DU. Dylid ystyried y posibilrwydd o effaith niweidiol ar y rhywogaethau hyn fesul achos (gweler hefyd Cyd-destun Lleol).

Gall effeithiau ar rywogaethau fod yn arbennig o anodd eu gwerthuso a, phan fo amheuaeth, dylid cael barn arbenigol.

5. Cydnerthedd ecolegol

Mae cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau yn un o amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR): fel y disgrifir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae cydnerthedd ecolegol yn cynnwys pum agwedd (i) amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau; (ii) y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; (iii) graddfa ecosystemau; (iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); (v) hyblygrwydd ecosystemau.

Mae cydnerthedd ardaloedd o gynefin a phoblogaethau rhywogaethau yn ffactor ychwanegol i'w ystyried wrth asesu arwyddocâd. Mae'n golygu y gallai ardaloedd o gynefin sy'n agos at leiniau cynefin eraill, neu a allai ddarparu 'cerrig camu' rhwng gwahanol leiniau cynefin, fod yn fwy arwyddocaol, hyd yn oed os nad oes llawer o amrywiaeth neu os ydynt o faint cymharol fach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae prosiectau arfaethedig yn agos at, er enghraifft, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda 'nodweddion' cynefin neu rywogaeth perthnasol; yn agos at ardaloedd mawr o gynefin Adran 7; neu a allai fod yn rhan o'r ystod o rywogaethau anifeiliaid nodedig symudol.

6. Cyd-destun Lleol

Wrth asesu arwyddocad, dylid ystyried pwysigrwydd lleol yn ogystal â chenedlaethol o gwahanol gynefinoedd a rhywogaethau. Mae cynefinoedd a rhywogaethau a restrir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) o bwysigrwydd cenedlaethol (Cymru) yn ôl diffiniad, ac mae rhai rhywogaethau nad ydynt yn rhan o Adran 7 yn brin yng nghyd-destun Cymru neu'r DU, felly maent yn amlwg yn bwysig (cyfeiriwch at Restri Coch gwledydd a'r DU). Fodd bynnag, efallai y bydd rhai cynefinoedd neu rywogaethau wedi'u dosbarthu'n anghyson fel eu bod yn gymharol gyffredin mewn rhai rhannau o Gymru ond yn brin yn lleol. Yn achos cynefinoedd lled-naturiol, gall hyn fod yn arbennig o wir mewn rhannau o Gymru a ddominyddir gan laswelltir sydd wedi'i wella'n amaethyddol, lle mae hyd yn oed darnau gweddol amrywiol o gynefin yn anghyffredin iawn ac felly o werth uwch. I'r gwrthwyneb, gall lleiniau o gynefin mewn ardaloedd lle mae cynefin lled-naturiol yn arbennig o gyffredin fod o werth uwch ar gyfer cydnerthedd ecosystemau (gweler rhan 5).

Gall dosbarthiad anghyson rhywogaethau fod o ganlyniad i amryw o ffactorau, gan gynnwys terfynau amrediad daearyddol, gyda phoblogaethau tuag at ymyl ystod rhywogaethau yn cael eu hystyried yn bwysicach. Dylid nodi hefyd ddosbarthiad ehangach rhywogaethau. Er enghraifft, efallai fod rhai rhywogaethau yn gymharol gyffredin yng Nghymru neu mewn rhannau o Gymru, ond yn gyfyngedig iawn yn Ewrop neu yn rhyngwladol; un enghraifft yw'r carwe troellog, a all ymddangos yn gyffredin mewn glaswelltiroedd gwlyb mewn rhannau o'r De, ond sydd wedi'i gyfyngu yn rhyngwladol i gyrion gorllewinol Ewrop.

7. Safleoedd dynodedig

Safleoedd gwarchodedig statudol yw'r rhai sy'n derbyn diogelwch cyfreithiol mewn cydnabyddiaeth o'u budd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth. Maent yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

Mae safleoedd o bwysigrwydd lleol yn cynnwys Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS), a gydnabyddir am eu pwysigrwydd geoamrywiaeth lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs) a safleoedd o ddiddordeb bioamrywiaeth lleol, yn cael eu dynodi gan awdurdodau lleol fel arfer. Er bod diffyg diogelwch cyfreithiol, disgwylir i awdurdodau lleol ystyried yr angen i'w diogelu wrth benderfynu ar eu polisiau cynllunio a datblygu. Gellir cydnabod safleoedd hefyd am eu pwysigrwydd hanesyddol fel Henebion Cofrestredig (SM).

Gall rheolwyr tir wneud cais i gael eu sgrinio am dir a ddynodwyd gan awdurdod statudol. Felly, mae angen sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn effeithio'n andwyol ar unrhyw ardaloedd dynodedig, ac yn enwedig y nodweddion o ddiddordeb sy'n sail i'r dynodiad. Ar yr adegau hyn, felly, bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn cysylltu â'r awdurdod statudol sydd â goruchwyliaeth gyffredinol dros yr ardaloedd dynodedig hyn, er enghraifft, ar gyfer safleoedd SM, CADW yw'r awdurdod statudol, ac ystyried a thrafod y cyngor y mae'r cyrff hynny yn ei ddarparu.

Ni fydd dynodi safle yn anochel yn arwain at benderfyniad 'arwyddocaol' ar ddosbarthiad y tir. Os yw'r gwaith arfaethedig, neu waith sydd eisoes wedi mynd rhagddo (yn achos ymchwiliad i dramgwydd) yn mynd i effeithio'n andwyol ar nodwedd neu nodweddion y dynodiad, ystyrir bod y safle'n 'arwyddocaol' am y rhesymau hynny yn unig. Fodd bynnag, os na fydd y gwaith yn effeithio'n andwyol ar nodweddion yr ardal ddynodedig, ni fydd statws dynodiad y safle yn cael unrhyw ddylanwad pellach ar lefel arwyddocâd y safle, a phenderfynir ar lefel yr arwyddocâd fel ar gyfer tir heb ei ddynodi.

Trafodaeth

Oherwydd yr achosion newidiol ac amrywiol lle mae angen penderfynu ar arwyddocâd nodweddion safle, mae'n amhosibl gosod trothwyon pendant o ran pan fydd rhywbeth yn dod yn arwyddocaol a phan na fydd rhywbeth yn dod yn arwyddocaol.

Wrth ystyried cynefinoedd a nodweddion lled-naturiol sydd wedi'u haddasu'n rhannol, bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) bob amser yn ceisio cydbwysu'r angen i negyddu effeithiau amaethyddiaeth ar y nodweddion hynny â'r angen i'r tirlfeddiannwr gynnal busnes cynaliadwy. Bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) bob amser yn trafod cais gyda thirlfeddiannwr a, lle bo'n briodol, bydd yn awgrymu hepgor pob ardal o gynefin lled-naturiol arwyddocaol, os yw hynny'n ymarferol. Mae hyn yn aml yn caniatáu pasio ceisiadau sgrinio a chadw unrhyw ardaloedd arwyddocaol o gynefin.

Dylid ystyried pob un o'r categorïau uchod gyda'i gilydd er mwyn canfod arwyddocâd safle. Gallai un o'r uchod, cynefin/rhywogaeth Adran 7, fod yn ddigon o reswm i labelu ardal yn ardal 'arwyddocaol', neu gallai sawl un (os nad pob un) o'r categorïau uchod gyfuno i greu dadl gref dros ystyried yr ardal yn ardal 'arwyddocaol'. Gall y defnydd o drothwyon a therfynau cenedlaethol caeth, lle mae nodwedd/maes sydd o dan ystyriaeth yn disgyn yn awtomatig i'r categori arwyddocaol neu ddim yn arwyddocaol, fod yn broblemus oherwydd, fel y trafodwyd yn flaenorol, gallai ardal mewn un lleoliad fod â gwahanol lefel o arwyddocâd o gymharu ag ardal debyg mewn lleoliad arall. Felly, mae trothwyon caeth wedi'u hosgoi yn fwriadol.

Bydd yr Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn casglu gwybodaeth am bob safle ar ffurflen safonol, gan nodi pa nodweddion sy'n berthnasol i lefel yr arwyddocâd a nodi sut y daethpwyd i'r penderfyniad. Bydd hyn yn gofnod o'r broses asesu ac yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Cyfeiriadau

Stevens, J.P. 2005. Setting land cover data for the proposed Merthyr Village development area into a wider context: an analysis of CCW's Phase 1 habitat survey data. Dogfen fewnol Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi'i chynhyrchu ar gyfer Adolygiad Barnwrol Pentref Merthyr 2006.

Jefferson, R.G., Smith, S.L.N. & MacKintosh, E.J. 2014. Guidelines for the Selection of Biological SSSIs. Part 2: Detailed Guidelines for Habitats and Species Groups. Chapter 3 Lowland Grasslands. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.

Rodwell, J.S. (ed.). 1991. British Plant Communities. Volumes 1–4, et seq. Cambridge: Cambridge University Press.

Rodwell, J.S. 2006. National Vegetation Classification users' handbook. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.

Atodiad 1

1. Trosolwg o'r Fethodoleg

- Mae'r Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn defnyddio methodoleg y system Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) (Rodwell 2006) i ganfod y math o gynefin. Mae'r system NVC yn dosbarthu pob cynefin a geir yn y DU mewn ffordd systematig, ac mae yn cael ei dderbyn fel methodoleg safonol yn y DU wrth ddosbarthu cynefin.
- I asesu arwyddocâd y Cynefin NVC, defnyddir gwerthoedd DOMIN: unrhyw fethodoleg arall e.e. Gellir defnyddio DAFOR ar gyfer yr asesiad cychwynnol
- Byddwn hefyd yn chwilio cronfa ddata'r Uned Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) ar gyfer y safle i weld pa ddata hanesyddol sydd gan Lywodraeth Cymru ar y safle.
- Cynhelir ymgynghoriad allanol â chyrff eraill ar safleoedd lled-naturiol i ganfod a oes unrhyw dystiolaeth/gwybodaeth hanesyddol bellach ar gael e.e. CADW, CNC.
- Er mwyn dosbarthu'r cynefin o dan ymchwiliad, bydd sgwariau cwadrat 2m x 2m ar hap o'r clystyrau homologaidd o fewn yr ardal o ddiddordeb yn cael eu cymryd. Cofnodir yr holl rywogaethau planhigion, gyda'u gorchudd canrannol, o fewn y cwadradau.
- Nid yw bob amser yn bosibl defnyddio'r agwedd ar hap o'r fethodoleg wrth ymchwilio i achosion o dorri'r Rheoliadau, gan fod rhaid i syrfeyr nodi dangosyddion o'r cynefin blaenorol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, caiff y cwadradau eu rhoi mewn ardaloedd lle mae llystyfiant gweddilliol yn bresennol yn y borfa. Neu gellir defnyddio DAFOR i gychwyn.
- Wrth ddosbarthu'r math(au) o gynefin o fewn yr ardal o ddiddordeb, mae lefel amrywiaeth y rhywogaethau ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau o gynefinoedd yn yr ardal yn cael ei chyflawni hefyd.
- Bydd y syrfewr hefyd yn cofnodi rhywogaethau eraill sy'n bresennol yn y clwstwr nad oeddent wedi digwydd o fewn y cwadradau a fydd hefyd yn ychwanegu at amrywiaeth rhywogaethau'r cynefinoedd yn yr ardal o ddiddordeb.
- Ym mhob un o'r cynefinoedd a ddisgrifir yn y llenyddiaeth NVC, ceir rhywogaethau 'nodedig'. Bydd cynnwys y rhywogaethau 'nodedig' hyn hefyd yn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch arwyddocâd y safle.
- Yn ystod yr arolwg botanegol, bydd arsylwadau'n cael eu gwneud ar unrhyw ffawna sy'n defnyddio'r safle. Bydd hyn yn ategu budd sŵolegol y safle a gafwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan grwpiau rhanddeiliaid.
- Yna, bydd yr wybodaeth am ffawna yn cael ei hystyried gyda'r data botanegol a gasglwyd. Bydd y prif sbardun sy'n nodi amrywiaeth fiolegol y safle yn dod o'r arolygon botanegol.
- Yna, bydd lefel amrywiaeth rhywogaethau y cynefin(oedd) yn yr ardal o ddiddordeb yn cael ei thrafod i bennu arwyddocâd y safle.

2. Rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7

Cynefinoedd

Cynefinoedd	Cynefinoedd â Blaenoriaeth
Daearol, arfordirol a dŵr croyw	
Coetir llydanddail, cymysg ac yw	Perllannau traddodiadol
	Porfa goediog a pharcdir
	Coetir derw ar dir uchel
	Coetir ffawydd ac yw ar dir isel
	Coetir ynn cymysg ar dir uchel
	Coetir gwlyb
	Coetir collddail cymysg ar dir isel
Nodweddion ffiniol a llinellol	Gwrychoedd
Tir âr a garddwriaethol	Ymylon caeau âr
Glaswelltir wedi ei wella	Coastal and floodplain grazing marsh
Glaswelltir niwtral	Dolydd ar dir isel
Glaswelltir calchaid	Glaswelltir calchaid ar dir isel
	Glaswelltir calchaid ar dir uchel
Glaswelltir asid	Glaswelltir asid sych ar dir isel
Rhos gorlwyni	Rhostir ar dir isel
	Rhostir ar dir uchel
Ffen, cors a gwern	Ffeniau a chorsydd gorlawn ar dir uchel
	Ffeniau ar dir isel
	Glaswelltir y waun a phorfeydd brwyn
	Gwelyau cyrs
Corsydd	Cyforgors ar dir isel
	Gorgors
Cynefinoedd mynyddig	Rhosydd mynyddig a phrysg helyg
Afonydd a nentydd	Afonydd
Dŵr agored llonydd a chamlesi	Llynnoedd oligotroffig a dystroffig
	Pyllau
	Llynnoedd mesotroffig
	Dyfroedd llonydd ewtroffig
	Cyrff dŵr a fwydir ar ddyrhaenau ac sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr

Cynefinoedd	Cynefinoedd â Blaenoriaeth
Craig fewndirol	Cynefinoedd brigiadau craig a sgri mewndirol
	Glaswelltiroedd Calaminaraidd
	Cynefinoedd mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol
	Palmentydd calchfaen
Craig uwch-lanw	Clogwyni a llethrau arfordrol
Gwaddodion uwch-lanw	Twyni tywod arfordirol
	Gro arfordirol gyda llystyfiant
Morol	
Craig arfordirol	Cymunedau clogfeini rhynglanwol
	Riffiau <i>Sabellaria alveolata</i>
	Cynefinoedd creigiog aberol
Gwaddodion arfordirol	Morfa heli
	Traethellau rhynglanwol
	Gwelyau morwellt
	Graean lleidiog mewn mannau cysgodol
	Gwelyau marchfisglod
	Gwelyau maerl
	Morlynnoedd hallt
	Amlygiadau mawn a chlai
Craig is-lanw	Sianeli sy'n cael eu sgubo gan y llanw
	Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefinoedd creigiog is-lanw
	Riffiau carbonad
Gwaddodion is-lanw	Tywod a graean is-lanw
	Gwaddodion lleidiog cymysg is-lanw
	Cynefinoedd llaid mewn dŵr dwfn
	Gwelyau <i>Musculus discors</i>
	Gwelyau misgl glas

Rhywogaethau

¥ Rhywogaethau Cymru yn unig; † rhywogaethau Adran 74 gwreiddiol

Mamaliad (17 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Arvicola terrestris</i>	Llygoden bengron y dŵr†	
<i>Barbastella barbastellus</i>	Ystlum du†	
<i>Erinaceus europaeus</i>	Draenog	
<i>Lepus europaeus</i>	Ysgyfarnog†	
<i>Lutra lutra</i>	Dyfrgi†	
<i>Martes Martes</i>	Bele'r coed	
<i>Micromys minutus</i>	Llygoden yr ŷd	
<i>Muscardinus avellanarius</i>	Pathew†	
<i>Mustela putorius</i>	Ffwlbart	
<i>Myotis bechsteinii</i>	Ystlum Bechstein†	
<i>Nyctalus noctula</i>	Ystlum mawr	
<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	Ystlum lleiaf†¥	
<i>Pipistrellus pygmaeus</i>	Ystlum lleiaf meinlaist†	
<i>Plecotus auritus</i>	Ystlum hirglust	
<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>	Ystlum pedol mwyaf†	
<i>Rhinolophus hipposideros</i>	Ystlum pedol lleiaf†	
<i>Sciurus vulgaris</i>	Gwiwer goch†	

Adar (51 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Acrocephalus paludicola</i>	Telor y dŵr†	
<i>Alauda arvensis subsp. arvensis/scotica</i>	Ehedydd†	
<i>Anser albifrons subsp. flavirostris</i>	Gŵydd dalcen-wen fwyaf yr Ynys Las	
<i>Anthus trivialis</i>	Corhedydd y coed	
<i>Botaurus stellaris</i>	Aderyn y bwn†	
<i>Branta bernicula subsp. bernicula</i>	Gŵydd ddu	
<i>Caprimulgus europaeus</i>	Troellwr mawr†	
<i>Carduelis cabaret</i>	Llinos bengoch leiaf	
<i>Carduelis cannabina subsp. autochthona/cannabina</i>	Llinost†	
<i>Carduelis flavirostris subsp. benzonorum/pipilans</i>	Llinos y mynydd	
<i>Charadrius hiaticula</i>	Cwtiad torchog¥	

Adar (51 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Circus cyaneus</i>	Boda tinwyn†¥	
<i>Coccothraustes coccothraustes</i>	Gylfinbraff	
<i>Crex crex</i>	Rhegen yr yd†	
<i>Cuculus canorus</i>	Cog	
<i>Cygnus columbianus subsp. Bewickii</i>	Alarch Bewickn	
<i>Dendrocopus minor subsp. Comminutus</i>	Cnocell fraith leiaf	
<i>Emberiza calandra subsp. calandra/clanceyi</i>	Bras yr yd†	
<i>Emberiza citrinella</i>	Bras melyn†	
<i>Emberiza schoeniclus</i>	Bras y cyrs†	
<i>Falco tinnunculus</i>	Cudyll coch ¥	
<i>Ficedula hypoleuca</i>	Gwybedog brith ¥	
<i>Lagopus lagopus subsp. scotica</i>	Grugiar goch	
<i>Lanius collurio</i>	Cigydd cefngoch	
<i>Larus argentatus subsp. argenteus</i>	Gwylan y penwaig	
<i>Larus ridibundus</i>	Gwylan benddu ¥	
<i>Limosa lapponica</i>	Rhostog gynffonfraith ¥	
<i>Locustella naevia</i>	Troellwr bach	
<i>Lullula arborea</i>	Ehedydd y coed	
<i>Melanitta nigra</i>	Môr-hwyaden ddu†	
<i>Motacilla flava subsp. flavissima</i>	Siglen felen	
<i>Muscicapa striata</i>	Gwybedog mannog†	
<i>Numenius arquata</i>	Gylfinir†	
<i>Parus montanus subsp. Kleinschmidtii</i>	Titw'r helyg	
<i>Parus palustris subsp. palustris/dresseri</i>	Titw'r wern	
<i>Passer domesticus</i>	Aderyn y to	
<i>Passer montanus</i>	Golfan y mynydd†	
<i>Perdix perdix</i>	Petrisen†	
<i>Phylloscopus sibilatrix</i>	Telwr y coed	
<i>Pluvialis apricaria</i>	Cwtiad aur† ¥	

Adar (51 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Prunella modularis subsp. Occidentalis</i>	Llwyd y gwrych	
<i>Puffinus mauretanicus</i>	Aderyn drycin y Balearig	
<i>Pyrhacorax pyrrhacorax</i>	Brân goesgoch†¥	
<i>Pyrhula pyrrhula subsp. pileata</i>	Coch y berllan†	
<i>Sterna dougallii</i>	Môr-wennol wridog†	
<i>Streptopelia turtur</i>	Turtur†	
<i>Sturnus vulgaris subsp. vulgaris</i>	Drudwen	
<i>Tetrao tetrix subsp. britannicus</i>	Grugiar ddu†	
<i>Turdus philomelos subsp. clarkei</i>	Bronfraith†	
<i>Turdus torquatus</i>	Mwyalchen y mynyddl	
<i>Vanellus vanellus</i>	Cornchwiglen†	

Pysgod (10 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Alosa alosa</i>	Herlyn†	
<i>Alosa fallax</i>	Gwangen†	
<i>Anguilla anguilla</i>	Llysywen	
<i>Coregonus lavaretus</i>	Gwyniad (Gwyniad Llumonwy, Gwyniad neu Dderwennydd)	
<i>Lampetra fluviatilis</i>	Llysywen bendoll yr afon	
<i>Osmerus eperlanus</i>	Brwyniad Conwy	
<i>Petromyzon marinus</i>	Llysywen bendoll y môr	
<i>Salmo salar</i>	Eog	
<i>Salmo trutta</i>	Brithyll / Siwin	
<i>Salvelinus alpinus</i>	Torgoch	

Ymlusgiaid ac Amffibiaid (8 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Anguis fragilis</i>	Neidr ddefaid	
<i>Bufo bufo</i>	Llyffant dafadennog	
<i>Epidalea calamita</i>	Llyffant y twyni†	
<i>Lacerta agilis</i>	Madfall y tywod†	
<i>Zootoca vivipara</i>	Madfall	
<i>Natrix natrix</i>	Neidr y gwair / neidr y glaswellt	
<i>Triturus cristatus</i>	Madfall ddŵr gribog†	
<i>Vipera berus</i>	Gwiber	

Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn (188 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Acronicta psi</i>	Bidog llwyd	
<i>Acronicta rumicis</i>	Bidog y tafol	
<i>Adscita statice</i>	Coediwr	
<i>Agonopterix atomella</i>	Micro-wyfn	
<i>Agonum scitulum</i>	Chwilen ddaear	
<i>Agrochola helvola</i>	Castan Grech	
<i>Agrochola litura</i>	Castan smotyn brown	
<i>Agrochola lychnidis</i>	Castan leiniog	
<i>Allophytes oxyacanthae</i>	Cilgant brych	
<i>Amphipoea oculatea</i>	Clustwyfn llygeidiog	
<i>Amphipyra tragopoginis</i>	Ôl-adain lyglwyd	
<i>Anania funebris</i>	Gwyfn o deulu'r Pyralidiau	
<i>Andrena tarsata</i>	Gwenynen durio	
<i>Apamea anceps</i>	Brithyn ocraidd	
<i>Apamea remissa</i>	Brithyn llwydolau	
<i>Aporophyla luteola</i>	Gwladwr brownddu	
<i>Arctia caja</i>	Teigr yr ardd	
<i>Argynnis adippe</i>	Brithyn frown†	
<i>Asilus crabroniformis</i>	Pryf llofrudd†	

Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn (188 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Asteroscopus sphinx</i>	Cwcwll bwaog	
<i>Atethmia centrigo</i>	Melyn yr onnen	
<i>Austropotamobius pallipes</i>	Cimwch dŵr croyw†	
<i>Bembidion quadripustulatum</i>	Chwilen ddaear	
<i>Bembidion testaceum</i>	Chwilen ddaear†	
<i>Bidessus minutissimus</i>	Chwilen blymio†	
<i>Blepharita adusta</i>	Pali tywyll	
<i>Boloria euphrosyne</i>	Britheg berlog†	
<i>Boloria selene</i>	Britheg berlog fach	
<i>Bombus humilis</i>	Cardwenynen lwydfrown†	
<i>Bombus muscorum</i>	Cardwenynen y mwsogl	
<i>Bombus rudarius</i>	Cardwenynen goesgoch	
<i>Bombus ruderatus</i>	Gwenynen bwm yr ardd	
<i>Bombus sylvarum</i>	Cardwenynen feinlaist†	
<i>Brachylomia viminalis</i>	Gwargwlwm bach	
<i>Brachyptera putata</i>	Coch y mis bach (math o bryf cerrig)†	
<i>Calosoma inquisitor</i>	Chwilen ddaear	
<i>Carabus monilis</i>	Chwilen ddaear	
<i>Caradrina morpheus</i>	Gwladwr brith	
<i>Celaena haworthii</i>	Gwyfyn plu'r gweunydd	
<i>Celaena leucostigma</i>	Clustwyfyn cilgantog	
<i>Chesias legatella</i>	Rhesen y banadl	
<i>Chesias rufata</i>	Rhesen gam	
<i>Chiasmia clathrata</i>	Seffyr delltog	
<i>Chlaenius tristis</i>	Chwilen ddaear lwydaidd	
<i>Chrysis fulgida</i>	Cacynen gynffon ruddem	
<i>Cicindela hybrida</i>	Chwilen deigr groesryw†	
<i>Clorismia rustica</i>	Pryf pigfaint†	
<i>Coenagrion mercuriale</i>	Mursen Penfro†	

Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn (188 rhywogaeth)		Newidiadau
<i>Coenonympha pamphilus</i>	Gweirlöyn bach y waun	
<i>Coenonympha tullia</i>	Gweirlöyn mawr y waun	
<i>Cosmia diffinis</i>	Llwyfwyfn brith†	
<i>Cossus cossus</i>	Gwyfyn drewllyd	
<i>Cryptocephalus decemmaculatus</i>	Chwilen ddail ddeg smotyn	
<i>Cupido minimus</i>	Glesyn bach	
<i>Cyclophora pendularia</i>	Moca tywyll	
<i>Cylindera germanica</i>	Chwilen deigr†	
<i>Cymatophorima diluta</i>	Tant y derw	
<i>Dasypolia templi</i>	Cwcwll melynaudd	
<i>Diarsia rubi</i>	Smotyn sgwâr bach	
<i>Diloba caeruleocephala</i>	Crwbach ffigwr wyth	
<i>Dipoena inornata</i>	Copyn/corryn coes gribog	
<i>Dolomedes plantarius</i>	Corryn rafftio'r ffent†	
